

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 2) 2022**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn Atodlen isod ar waith.
2. Gellir archwilio manylion llawn y cynigion, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig a'r Cynllun Rhif T/22/3/WS ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF946) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 29 Ebril 2022** ac mae'n rhaid cynnwys eich sail dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Rhestrau Map A61 ac AA61

Gwaharddiad Arfaethedig ar Aros Ar Unrhyw Adeg

Heol Sili, Penarth

Ar yr ochr ddwyreiniol o linell ffin ogleddol Eglwys San Pedr, i gyfeiriad y gogledd am bellter o 19 metr.

Ar ochr y gogledd-ddwyrain o linell ffin ogledd-orllewinol Old Cogan Hall Cottages, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 68 metr.

Ar yr ochr de-orllewin o linell ffin ogleddol Eglwys San Pedr, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 132 metr

Dyddiedig 7 Ebril 2022.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA